Cadw

Croeso i Gastell Rhuddlan

Lle tyngedfennol yn hanes Cymru

Beth i'w weld yng Nghastell Rhuddlan

1. Cewch eich syfrdanu gan Borthdy'r Gorllewin; mae uchder y ddau dŵr yn arwydd o rym.
2. Cymerwch gip ar adeiladau pwysicaf y castell yn y Ward Fewnol, gan gynnwys Neuadd a Siambr y Brenin, y Capel a'r Ceginau. Roedd agennau saethau ar y llawr gwaelod ar hyd tair o'r llenfuriau — amddiffynfa dda.
3. Dringwch i fyny fry i Borthdy'r Dwyrain a mwynhau golygfeydd o gefn gwlad.
4. Dychmygwch pe bai gennych y grym a'r cyfoeth i newid cwrs afon! Dyna wnaeth Edward I. Cyfeiriodd afon Clwyd trwy gamlas am dros 3.5km (2 filltir) fel y gallai llongau gyrraedd Rhuddlan bob amser.
5. Cadwch lygad yn agored am Dŵr Gillot. Roedd yn amddiffyn y doc a'r llongau a gludai nwyddau i'r castell. Roedd mur glan yr afon â'i res o agennau saethau yn haen arall o ddiogelwch.
6. Rhowch eich dychymyg ar waith ar yr amddiffynfeydd cadarn hyn! Roedd arfau mawr grymus yn y Ward Allanol — yn cynnwys magnelau a chatapyltiau.
7. Y fynedfa, y siop a'r toiled.



Mae'r Cymry wrth eu bodd â dreigiau! Gwaetha'r modd, does dim dreigiau'n byw mewn cestyll, ond rydyn ni wedi cuddio un yn y llun — am hwyl. Allwch chi ei gweld?

Ymunwch â Cadw i fwynhau mynediad diderfyn i 131 o safleoedd hanesyddol

Mae'r heneb hon yng ngofal Cadw, gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Mae Cadw'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei warchod yn dda. Mae'n drosedd difrodi neu ddifwyno'r heneb.

Er eich diogelwch

Gall henebion fod yn beryglus.
Peidiwch â dringo ar yr heneb.
Cymerwch ofal wrth ymweld â'r safle hwn.
Rhaid goruchwylio plant dan 16 oed trwy'r amser.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cadw.llyw.cymru

Rhuddlan Croeso leaflet WELSH v3.indd 1 07/05/2024 16:23